


Oriel Ceri Richards, Canolfan y Celfyddydau Taliesin,, Prifysgol Abertawe, Abertawe, SA2 8PZ Llun I  
Wener 10yb – 6yp, Sadwrn 10yb – 1yp, 1.30yp – 4yp

### 'All Fur-Coat' gan Billy Kerry yn agor 13 Ionawr i 4 Chwefror 2017

Mae'n bleser gan y Cwmni Celf a Diwylliant Romani (RCAC) gyhoeddi arddangosfa newydd o waith gan yr artist Billy Kerry. Yr arddangosfa gyffrous hon o waith a gomisiynwyd yw'r diweddaraf yn ein prosiect sy'n torri tir newydd, *Gypsy Maker* – menter sy'n cefnogi datblygiad gwaith arloesol gan artistiaid Sipsi, Roma a Theithwyr (GRT) newydd a sefydledig. Mae'r prosiect *Gypsy Maker* yn ehangu ar waith RCAC drwy barhau i gynnwys cymunedau GRT â'r cyhoedd mewn deialog parhaus ynghylch y ffyrdd y mae celf yn parhau i gyfeirio bywyd unigolion a chymunedau heddiw.

Hyfforddwyd y Romani Billy Kerry yng Ngholeg Celf a Dylunio Chelsea yn Llundain, lle enillodd radd anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Celf Gain. Ers graddio yn 2009 mae wedi bod yn ysbrydoli pobl eraill drwy addysgu a chynorthwyo yng Ngholeg Rhanbarthol Caergrawnt. Mae ymarfer eclectig Billy Kerry yn adrodd y cydberthynas agos rhwng artist a deunydd – rhwng y corff a gwrthrych. Mae ei arddangosfa newydd o gerfluniau a gludwaith yn archwilio ac yn herio barnau rhagdybiedig ar ethnigrwydd, rolau rhywedd a chydymffurfiad gwneud. Mae'r gweithiau hyn yn cynnwys elfennau cysyniadol amrywiol a themâu estheteg sy'n amrywio o oes Fictoria i ddiwylliant poblogaidd cyfredol mewn gwrthdrawiadau sy'n herio gwerthoedd sefydledig er mwyn caniatáu golwg newydd ar y ffordd rydym yn byw heddiw.



Fur-Coat © Billy Kerry 2016

"Mae cael cyfle i weithio gyda'r Cwmni Celf a Diwylliant Romani wedi bod yn wych. Mae RCAC wedi fy nghefnogi a'm harwain ar yr un pryd â chaniatáu i mi fod yn rhydd yn fy ngwaith. Fel artist ac addysgwyr, rwyf wrth fy modd y gofynnwyd i mi gynnal gweithdai gydag ysgolion oherwydd credaf fod addysg greadigol yn bwysig er mwyn creu unigolion cryfach o bob lliw a llun." Billy Kerry

"Rwy'n hynod falch o gefnogi'r arddangosfa ddiweddaraf yn y prosiect *Gypsy Maker* sy'n torri tir newydd. Mae'r arddangosfa'n cynnig golwg y mae mawr ei hangen ar gymuned gamddealledig GRT ac mae'n caniatáu'r boblogaeth ehangach i fwynhau ei diwylliant a'i threftadaeth unigryw." Julie James AC

"Gan helpu i oresgyn yr anwybodaeth a'r rhagfarn sy'n parhau ynghylch cymunedau GRT, unwaith eto mae artistiaid ar flaen y gad yn chwalu ystrydebau ac yn taflu goleuni a dealltwriaeth ar broblem ddifrifol o hyd yn ein cymdeithas." – Sybil Crouch, Pennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Canolfan y Celfyddydau Taliesin

Mae'r Cwmni Celf a Diwylliant Romani yn eich gwahodd i weld y gwaith ac i gwrdd â'r artist yn agoriad yr arddangosfa newydd hon.

